26
1779

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON.
SALISBURY LIBRARY

# DWY

O

# GERDDI

## *NEWYDDION,*

### Y GYNTAF

O hanes rhyfeddol am Fachgen a fu farw yn ddiweddar yn Heol Dean, *(Dean Street.)* yn Llundain yn un ar bymtheg oed, yr hwn at ddiwedd ei oes a glafychodd mewn modd anarferol, sef a rhyw swm mawr or tu mewn iddo megis gwraig feichiog fai'n agos i dump esgor; yr hwn pan fu farw a agorwyd a chafwyd yn ei gylla ef Blentyn benyw, a gwallt ac a danedd ganddo, ac un goes ganddo, a di anaf oedd hynny. fel mae'r hanes yn canlyn yn y Gerdd.

### YN AIL

Annogaeth ddifrifol i ystyried y maith dragwyddoldeb.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

*Cenir ar y Dôn Fechan.*

DOWCH yn nes i wrando 'Stori
Fwya hynod fu i'w henwi,
Ni fu'r fath beth erioed mewn sylw,
Er dydd Adda i'r dydd heddyw.

Bachgen oedd yn byw yn Llundain
Yn ddigon hiwus mwyn a llawen;
Ond daeth rhyw ddolur tôst i'w flino,
Er ys dyddie i'w gystuddio.

Yn ei fol yn sylwedd grymus
Ag iddo beunydd 'roedd yn boenus,
Ond aeth ei ddolur i ddi alaeth,
A phasio gwŷr o physigwriaeth.

Nid oedd rhyngddo fawr o ragor
A gwraig feichiog yn min esgor;
Yn fawr ei swm a musgrell hefyd
Yno'n boenus iawn ei benyd.

Pan aeth yn un ar hymtheg oedran
Fe aeth ei glwy yn fwy dra hyfan,
Megis plentyn roedd e'n gwingo
A phawb a'i law yn gallu'i deimlo.

Bu farw'r bachgen poenus gyflwr,
Er maint ysgil yr holl Physygwyr,

Ac at y Corph er mwyn ei weled ;
Bu yno dyrru gan ddoctoriad.

Ei agor wnaeth y gwyr cywreiniol,
A chawsant olwg sy'n rhyfeddol ;
'Roedd ynddo eneth fechan farwol,
Mae'r geirie'n awr yn wirioneddol.

Ac er nad oedd hi ond plentyn bychan,
Yr oedd hi'n edrych fel mewn oedran,
A chanddi dyner wallt a dannedd ;
Er mor salw oedd ei sylwedd.

Ond un goes a feddai tani
A dyn'r an foll oedd arni ;
Wrth ei galon bach yn gweled
Megis galar oedd ei gweled.

Yr oedd y PULS yn rhoddi arwydd
Ei bod yn fyw o fewn y deu-ddydd ;
Nerth y physig poen y bachgen,
Gallwn goelio a'i gwnaeth yn gelen.

Ynghylch y ddau mae barn Doctoriad
Eu bod 'run oedran ran cenhedliad :
Ei bod hi yno cyn ei eni
Wrth ei asen yn cyd oesi.

Nid oeddynt felly ond gyfeilliad
'Ran âch a natur a chenhedliad,
Ond bod gosodiad dechreu sylwedd,
Wedi ei ro'i yn afreoledd.

Y Doctor *Carpue*'n stryd Dean,
Yn meddiant hwn mae corphyn bychan,
Wedi wastio ei gnawd ef ymaith,
Fe geiff ar diroedd goffadwriaeth.

Pan ddaeth y newydd hwn o gwmpas,
Fe synnai ddynion yr holl Ddinas,
Ugeiniau sydd bob dydd yn dyfod,
At y Ddelw i wel'd Rhyfeddod.

O na 'mheuwch mo'r ystori,
Mae geiriau dynion gwir am dani,
Mae i dy'r Doctor *Carpue*'n cerdded,
Fil yn gwlwm fel yw gweled.

Fe ddylai pawb is wybren sobri,
Mae hynny'n rhinwedd pob rhieni;
Am gael plant yn lan heb ana,
Ac mor ddi nodded yw'n defnyddie.

Mae gallu Duw i'w weld yn eglur,
Mai cry' ydyw mewn creadur
Mae cyrph bywiolion trefn eu hanian,
Yn Rhagorol iawn gywrain.

Rhyfedded pawb o heppil Adda,
Gael ei eni yn ddi ana',
Rho'i clod i Dduw am fath ddaioni,
Mae hynny'n rhinwedd pob rhieni.

J. T.

BRytaniad parodtowch,
O ffordd y distryw dowch,
Am nefol fri, o bob trueni trowch
I smotyn noddfa dyma'r dydd,
I ddiengyd rhag y llid y sydd,
Gan ddilyn Duw a'i 'ddoliad,
Trwy ymddffyniad ffydd.

Gostyngwn dyma'r pryd,
I'r llwch cyn delo'r llid:
Cyn myn'd i'r bedd, yn oeredd farwedd fyd;
Rhag yn ein camwedd oeredd lâs,
Y bo'm ni'n cyfwrdd angau glâs,
Gwell inni 'rowron blygu,
I greiu wrth orsedd Gras.

'Dyw mwyniant hyn o fyd,
Ond byrr i'r hwya'i gyd;
A'r Iesu'n bur, Fel brodyr rhown ein bryd;
Os caru'r byd a wnawn bob awr
Nes delo'r angau i'n torri i lawr,
Pa fodd dangosir wyneb,
Yn nhragwyddoldeb mawr?

Oh Brenhin mawr y ne',
Yn llwyr newidio'n lle,
O lygredd bŷd, i fywyd ynddo fe.

Pe caem ni'r byd ar gwynfyd gwael
Sydd ynddo'n gyfan oll i'w gael,
Cael rhan yn Iôr y nefoedd
Sy'n filoedd mwy o fael.

Gan hynnny nag ymdrown,
O'n camwedd ffiedd ffown,
I grefu grâs, rai di-ras heddyw down
Trugaredd barod sy'n parhau, *Luc.* xiv. 17
I'r hwn a ddelo heb nac-hau
Oh Dduw dod iuni sobrwydd,
Yn rhwydd i 'diferhau.

Dnw blanno yn ein plith,
Wir grefydd yn lle rhith,
Ddaw rhagrith ffol, i'r noddfa fywiol fyth,
Gwybydded bawb sy' heddyw'n byw,
Heb wir adnabod Crist yn Nuw,
A'i gael e'n gyfaill hefyd.
Mae bywyd ynfyd yw.

Cael ffraeth wybodaeth ffri,
Sydd fraint o uchel fri,
Fod undeb gwiw rhwng Duw a'th enaid di
Pan ddelo i farnu dynol ryw,
Gwell bod mewn heddwch gyda Duw
Na'r byd a'i oll anrhydedd

Duw lwyddo'r 'Fengyl glir
I'n gwasgu ni at y gwir,
Boed gair Duw Iôr, 'neithafoedd Mor a Thir,
Yn tynnu pawb at Dduw ein pen
Y Gwr a'n prynodd ar y pren,
Pob genau'rhoed ogoniant,
A moliant iddo Amen.

FINIS.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON.